



Anfonwyd drwy e-bost

21 Mawrth 2022

Annwyl Swyddog Cyfrifol,

Parthed: Newidiadau dyddiadau gorffen

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi y byddwn ni'n newid teitlau'r dyddiadau gorffen cyfredol ar gronfa ddata QiW erbyn diwedd mis Mawrth 2022 i gyd-fynd â'r newidiadau a wnaed i ddiffiniadau dyddiadau gorffen yn y [Polisi Dynodi](#) diwygiedig.

Mae'r Dyddiad Gorffen Gweithredol a'r Dyddiadau Gorffen Ardystio cyfredol wedi bod yn aneglur o ran eu diben ac mae hyn wedi arwain at anghysondeb wrth eu defnyddio gan gyrff dyfarnu a chanolfannau.

Felly bydd y Dyddiad Gorffen Gweithredol yn cael ei ddisodli gan **Ddyddiad dechrau Dynodi/Cymeradwyo hwyrac sydd y mwyaf tebygol**. Caiff hyn ei ddiffinio yn ein Polisi Dynodi fel y dyddiad olaf/ hwyrac y gall dysgwyr ddechrau cwrs sy'n arwain at gymhwyster sy'n gymwys i'w ddefnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer dysgwyr dan 19 oed, yn seiliedig ar y model darparu mwyaf tebygol.

Dyddiad dechrau tybiannol yw hwn yn hytrach na dyddiad dechrau terfynol absoliwt ar gyfer gwahanol fodolau cyflawni. Rhaid i gyrff dyfarnu bennu'r dyddiad hwn yn seiliedig ar yr hyn y maen nhw'n ei ystyried yn fodel cyflawni **tebygol** ar gyfer y cymhwyster.

Byddwn yn poblogi'r maes gyda data'r Dyddiad Gorffen Gweithredol cyfredol ar QiW ond gofynnwn i chi adolygu a yw'r data'n parhau'n gywir yn unol â'r diffiniad yn ein polisi Dynodi.

Gellir gwneud unrhyw ddiwygiadau drwy'r broses arferol ar QiW.

Bydd Dyddiad Gorffen Ardystio yn cael ei ddisodli gan **Ddyddiad Gorffen Ardystio Dynodi/Cymeradwyo**. Caiff hyn ei ddiffinio yn ein polisi Dynodi fel diwedd y cyfnod dynodi/cymeradwyo a'r dyddiad olaf y gall dysgwyr gael ei ardystio am gymhwyster sy'n

Qualifications Wales

Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222



www.qualificationswales.org

Cymwysterau Cymru

Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

gymwys i'w ddefnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer dysgwyr dan 19 oed; mae hyn yn cynnwys ailsefyll.

Byddwn yn poblogi'r maes hwn gyda data'r Dyddiad Gorffen Ardystio cyfredol ar QiW ond gofynnwn eto i chi adolygu a yw'r data yma'n parhau'n gywir yn unol â'r diffiniad yn ein polisi Dynodi. Gellir gwneud unrhyw ddiwygiadau drwy'r broses arferol ar QiW.

Pan fydd cymhwyster dynodedig neu gymeradwy yn pasio'r Dyddiad Gorffen Ardystio Dynodi/Cymeradwyo, bydd yn dod yn gymhwyster Rheoleiddiedig Arall nes iddo gyrraedd y Dyddiad Gorffen Rheoleiddio newydd, pan gaiff ei archifo a'i dynnu'n ôl i bob pwrpas.

Mae **Dyddiad Gorffen Rheoleiddio** yn faes newydd ar QiW a bydd yn ymddangos ar bob cymhwyster byw, p'un a yw wedi'i ddynodi, ei gymeradwyo neu'n rheoleiddiedig arall. Dyma'r dyddiad olaf y bydd Cymwysterau Cymru yn rheoleiddio'r cymhwyster.

Byddwn yn poblogi'r maes gyda dyddiad rhagosodedig, sef 30/09/2034 ond dros y 12 -18 mis nesaf, byddwn yn cysylltu â chyrrff dyfarnu i ddiwygio'r dyddiadau fel eu bod yn gywir ar gyfer pob cymhwyster.

Pan fydd y Dyddiad Gorffen Rheoleiddio yn pasio ar QiW, bydd y cymhwyster yn cael ei archifo ond bydd unrhyw wybodaeth berthnasol am berfformiad yn parhau i fod ar gael i'w gweld.

Rydym wedi creu canllawiau newydd ar gyfer cyrrff dyfarnu ynghylch y newidiadau hyn a byddwn hefyd yn diwygio'r canllawiau presennol ynghylch Amod D6 yn ymwneud â theitlau dyddiadau gorffen a newid statws/prosesau tynnu'n ôl ar QiW.

Byddwn yn cysylltu â chi eto yn fuan ynghylch Dyddiadau Gorffen Rheoleiddio ar gyfer eich cymwysterau ond yn y cyfamser, os oes gennych unrhyw gwestiynau o gwbl, cysylltwch â ni ar recognitionandapproval@qualificationswales.org

Rydym hefyd yn hapus i ddarparu unrhyw hyfforddiant neu sesiynau briffio yr hoffech i'ch staff eu cael am y newidiadau hyn neu QiW yn fwy cyffredinol.

Yn gywir



Delyth Jones

Pennaeth Cymeradwyo a Dynodi